**[ATODIAD 2]**

**Llythyr bwriededig Cam 2**

**<u>HYSBYSIAD FFURFIOL I DENANTIAID - CAM 2</u>**

[Cyfeiriad tenant]

Annwyl denant

**TROSGLWYDDIAD ARFAETHEDIG STOC DAI CYNGOR GWYNEDD I GARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD.**

**HYSBYSIAD I DENANTIAID YN UNOL Â RHAN 106A A PARAGRAPH 3(3) O ATODLEN 3A DEDDF TAI 1985**

Yn fuan ym mis Ionawr, anfonais y ddogfen gynnig ffurfiol i denantiaid atoch ar gynlluniau Cyngor Gwynedd i drosglwyddo ei dai i Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hwn yn manylu ar gynnig y Cyngor a gofynnais i chwi ddychwelyd eich sylwadau ar y cynnig erbyn hanner dydd ar 16 Chwefror.

Yn ei gyfarfod ar y 26 Chwefror, ystyriwyd sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan denantiaid. Roedd rhan helaeth o'r rhain yn cynnwys unai sylwadau positif ynglŷn â chynnig trosglwyddo'r Cyngor neu'n ymwneud a chadarnhau manylion y ddogfen ymgynghori ffurfiol. Ar ôl ystyried y sylwadau yma, penderfynodd y Cyngor i beidio newid ei gynnig ac i fynd ymlaen i gynnal pleidlais ffurfiol o'i holl denantiaid diogel a rhagarweiniol.

Ar sail yr holl wybodaeth gyflwynwyd i'r pwyllgor ar y 26 Chwefror, penderfynodd y Cyngor i fynd ymlaen i gynnal pleidlais ffurfiol o holl denantiaid diogel a rhagarweiniol ar y cynnig i drosglwyddo'i gartrefi i Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar y telerau nodwyd yn y ddogfen gynnig ffurfiol.

Os oes ganddoch wrthwynebiad i'r cynnig, yna gallwch yrru manylion at Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ. Bydd angen i chwi wneud hyn i'w cyrraedd erbyn [**…...**].

Byddech yn derbyn papur pleidleisio ffurfiol gan "Electoral Reform Ballot Services" Cyf, sydd yn fudiad cenedlaethol sy'n cynghori ar faterion etholiadol ac fydd yn sicrhau y bydd y pleidlais gudd yn cael ei chynnal yn hollol annibynnol o'r Cyngor a Chartrefi Cymunedol Gwynedd. Mae'r papur pleidleisio i chwi gofrestru eich pleidlais ar y cynnig. Fe ddylsech ei ddychwelyd i gyrraedd "Electoral Reform Ballot Services" Cyf yn yr amlen rhagdaledig erbyn hanner dydd ar [**…..**] 2009.

Pe byddai well ganddoch bleidleisio drwy ddefnyddio'r ffôn neu'r rhyngrwyd, mae posib gwneud hyn ond i chwi ddilyn y canllawiau a nodir ar y papur pleidleisio.

Mae eich pleidlais yn hynod o bwysig gan y bydd yn galluogi'r Cyngor i gadarnhau os yw tenantiaid yn cefnogi ei gynnig i drosglwyddo. Ni fydd y Cyngor yn mynd yn ei flaen â'r

trosglwyddiad onibai fod y mwafrif o denantiaid sy’n pleidleisio yn pleidleisio o blaid y cynnig i drosglwyddo.

Cyn gall y trosglwyddiad fynd yn ei flaen, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi ei ganiatad. Yn gyfreithiol, ni allent roi ei caniatad os ymddengys fod mwyafrif o’r tenantiaid yn erbyn y trosglwyddiad. Wedi dweud hyn, hyd yn oed pe byddai’r mwyafrif o denantiaid o blaid, nid yw hyn yn effeithio disgresiwn cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru i wrthod rhoi caniatad am unrhyw reswm arall. Pan yn gwneud y penderfyniad, gall Llywodraeth y Cynulliad ystyried unrhyw wybodaeth perthasol sydd ar gael iddynt ac fe allent orfodi’r Cyngor i ryddhau unrhyw wybodaeth y maent ei angen.

**Mae’r Cyngor yn credu mai trosglwyddo sy’n cynnig y ffordd orau ymlaen i denantiaid, ond mae’n fater i chwi, y tenantiaid, i benderfyny drwy’r bleidlais. Rwy’n erfyn arnoch i sicrhau fod eich llais yn cael ei glywed drwy ddefnyddio eich pleidlais. Diolch am gymeryd yr amser i ddarllen y llythyr yma.**

Yn gywir

Cynghorydd Dyfed Edwards
Arweinydd Cyngor Gwynedd